**Pwyllgor Rhanbarth y Gogledd NWR 02-01(p1)**

**Dyddiad:** Dydd Gwener 11 Mai 2001

**Amser:** 10:00am tan 12.55pm

**Lleoliad:** Canolfan Ucheldre, Caergybi

## ADRODD YN ÔL O'R CYFARFOD BLAENOROL

1. Yn dilyn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Ionawr, ysgrifennodd y Cadeirydd at y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes gan grynhoi prif bwyntiau trafodaeth y Pwyllgor ynghylch datblygu polisi'r Cynulliad ar gefnogi pobl ifanc. Ceir yn atodiad 1, gopi o lythyr y Cadeirydd.

2. Atebodd y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes ar 28 Chwefror. Ceir yn atodiad 2, gopi o'r ateb.

3. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi'r ohebiaeth.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau** **Ebrill 2001**

---

**Atodiad 1**

Image16.gif (50487 bytes)

Jane Davidson AC
Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Pwyllgor Rhanbarth y Gogledd**
**North Wales Regional Committee**

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff CF99 1NA

14 Chwefror 2001

**Pwyllgor Rhanbarth y Gogledd – Ymestyn Hawliau: cefnogi pobl ifanc yng Nghymru**

Yn y cyfarfod ar ddydd Gwener 26 Ionawr, ystyriodd Pwyllgor Rhanbarth y Gogledd ddatblygiad polisi'r Cynulliad ar gefnogi pobl ifanc, a ddisgrifir yn *Ymestyn Hawliau* . Daeth 140 aelod o'r cyhoedd i'r cyfarfod er mwyn mynegi eu barn, ac amlygodd sawl neges glir yr hoffwn eu cyflwyno i chi. Gobeithiaf y gellir eu hymgorffori yn y broses ymgynghori.

Roedd y Pwyllgor yn falch cael clywed sylwadau nifer o bobl ifanc, ac rydym yn gobeithio y bydd pobl ifanc yn gysylltiedig, yn uniongyrchol, â datblygu polisïau'r Cynulliad ar wasanaethau cefnogi ieuenctid. Cafodd y Pwyllgor gyflwyniadau byr oddi wrth dri grw^ p ieuenctid, a amlinellodd eu pryderon mwyaf. Roeddent yn cynnwys:

- y drafnidiaeth gyhoeddus sydd ar gael a'r gost o'i defnyddio;
- diffyg cyfleusterau hamdden;
- yr angen am well gwybodaeth ar faterion yn ymwneud â iechyd a gyrfaoedd;
- yr angen am fwy o gyfleoedd i ddysgu sgiliau bywyd;
- galw am fwy o gefnogaeth i'r Gymraeg;
- pryder bod pobl ifanc yn cael eu stereoteipio fel rhai sy'n yfed ac yn cymryd cyffuriau.

Soniwyd hefyd bod angen mwy o wybodaeth ar bobl ifanc ar sut i reoli arian, a theimlodd y Pwyllgor bod hyn yn haeddu ystyriaeth bellach.

Gwnaed nifer o bwyntiau eraill yn ystod y drafodaeth ddilynol, gan gynnwys yr angen am:

- wella'r gwasanaethau sydd ar gael i bobl ifanc anabl;
- cefnogi pobl ifanc anabl sy'n dymuno gweithio ond sy'n cael eu rhwystro rhag gwneud hynny oherwydd eu bod yn colli budd-daliadau;
- sicrhau bod yr un gwasanaethau, o'r un ansawdd, ar gael ar gyfer pobl ifanc mewn ardaloedd gwledig a threfol;
- cynnig pecyn cyflog ac adnoddau digonol er mwyn recriwtio a chadw gweithwyr ieuenctid;
- cynorthwyo cyrff gwirfoddol â'r gost o archwilio hanes y staff sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc; credwyd y dylai'r Cynulliad ymdrechu i berswadio'r Swyddfa Gartref i dalu'r costau hyn;
- cynorthwyo myfyrwyr sy'n wynebu anawsterau ariannol tra'n astudio.

Mae cofnodion y cyfarfod yn amgaeëdig er gwybodaeth. Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Jane Hutt, Cynog Dafis a Kirsty Williams.

Yn gywir

**Ann Jones**

Cadeirydd, Pwyllgor Rhanbarth y Gogledd

---

**Atodiad 2**

**Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes**

Ann Jones AM
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

28 Chwefror 2001

Annwyl Ann

Diolch yn fawr am eich llythyr diweddar sy’n crynhoi’r sylwadau a’r negeseuon a ddaeth i’r amlwg wrth i Bwyllgor Rhanbarth y Gogledd ystyried yr adroddiad Ymestyn Hawliau. Roedd y ffordd y cawsant eu dwyn at ei gilydd gennych yn ddefnyddiol iawn, ac fe fyddaf, wrth gwrs, yn eu dwyn i ystyriaeth yn y broses ymgynghori. Yn y cyfamser, efallai yr hoffech wybod bod fy swyddogion wedi trefnu bod sylwadau pobl ifanc yn cael eu ychwanegu at adolygiad presennol Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth o ddarpariaeth drafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru, o ganlyniad i’r negeseuon clir a amlygodd am bwysigrwydd materion yn ymwneud â’r drafnidiaeth gyhoeddus sydd ar gael a’r gost o’i defnyddio gan bobl ifanc. Bydd yn ddiddorol cael gweld sut y mae’r Pwyllgor yn delio â’r agwedd bwysig hon o ddarpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus, yn dilyn y sylwadau a wnaed.

Yn gywir

**Jane Davidson AC**
Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes